**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at on Dydd Mawrth, 13eg Mai, 2025 at 2.00 pm**

**PRESENT:** Irene Brooke,
County Councillor Tony Easson,
Ian Mawdsley,
Phil Mundell,
Anne Underwood,
Kelvin Varney
Huw Watkins

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Richard Garner | Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus |

**APOLOGIES:**

County Councillor Sara Burch, A.Fairey, P. Allsopp, J. Askew, , B. Heys, S. Roderick, J. Thurston and R. Wynne-Jones

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Cyflwyniadau**

Agorodd cyfarfod y Fforwm gyda RG yn mynd drwy'r trefniadau ymarferol cyffredinol.

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau Philip Allsop, John Askew, Sara Burch, Anthea Fairey, Barbara Heys, Rhys Wynne-Jones, Sallie Roderick, Jack Thurston a gan Ruth Rourke, Cyngor Sir Fynwy. Cyflwynwyd Tony Easson fel y darpar aelod o'r cyngor sir a benodwyd i'r Fforwm Lleol – fe'i gwahoddwyd gan y Cadeirydd i gymryd rhan.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant

3. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy ar 19 Chwefror 2025 (Wedi eu hatodi).**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 1 Chwefror 2025,
Cynigiwyd gan: KV, Eiliwyd gan: AU

4. **Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod blaenorol nad ydynt ar yr agenda:**

Recriwtio aelod ychwanegol i'r Fforwm Lleol:
Rhoddodd RG y sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â chysylltu â Tillhill fel perchennog coedwig yn yr ardal, ni chafwyd ymateb gan gyswllt posibl ynghylch Undeb Amaethwyr Cymru, NFU na'r CLA. Argymellwyd fod aelodau'r Fforwm Lleol yn eu trosglwyddo i unrhyw berchnogion tir y gwyddant amdanynt.

GWEITHREDU: cysylltu neu drosglwyddo manylion darpar berchnogion tir/marchogwyr – aelodau'r Fforwm Lleol

Gwefan ar gyfer cofrestri ar wefan cams:

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at  on Dydd Mawrth, 13eg Mai, 2025 at 2.00 pm

Mae hyn yn dal i fod gyda Swyddog y Gymraeg i brofi ochr Gymraeg newydd y wefan.

GWEITHREDU: Diweddaru'r Fforwm Lleol pan fydd ar gael yn gyntaf ar gyfer ei gweld - RG

5. **Diweddariad prosiect Traciau a Llwybrau**

Ni fu cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Fforwm, bwriedir cynnal y nesaf ar 19 Mai, ac arhosir am adroddiad yr ymgynghorydd. Cynhaliwyd ymweliad safle – mae difrod dŵr sylweddol i'r llwybr ceffylau. Mae problemau hinsawdd yn gyffredin gyda dŵr yn effeithio ar lwybrau niferus, pwysau o ddefnydd, yn gyflymach nag y medrir eu cynnal.
ST – Arfordir Penfro fel enghraifft o symud yn ôl/symud llwybrau ac yn y blaen.

Pryder gan y Fforwm Lleol nad yw'r prosiect yn symud ymlaen yn ddigon cyflym.

GWEITHREDU: Cylchredeg cofnodion a'r wefan i'r Fforwm Lleol pan mae ar gael – RG

GWEITHREDU: Cylchredeg adroddiad yr ymgynghorydd pan fydd ar gael – RG

GWEITHREDU – Diweddariad i gyfarfod nesaf y Fforwm Lleol – BH/Is-grŵp

6. **Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru (Sarah Tindal, Uwch Swyddog Pobl a Lleoedd, De-ddwyrain Cymru/ Bob Campbell Uwch Swyddog Rheoli Tir, De-ddwyrain Cymru)**

Diweddariad gweithredol gan BC/ST.
Atodwyd nodiadau at agenda'r cyfarfod:
- ymholiad am gyfrifoldeb coed ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru – mae'r cyfrifoldeb am yr arwyneb fel arfer gan Gyngor Sir Fynwy, coed/twf ochr fel arfer gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.
Adrodd drwy fap rhyngweithiol Cyngor Sir Fynwy neu e-bost yn uniongyrchol at Cyfoeth Naturiol Cymru.
Olrhain gwartheg ar Beacon Hill, Tryleg: gellir olrhain drwy ddolen cod QR i'r wefan. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl cael gwared â chlwydi, ffensys ac yn y blaen gan wella hygyrchedd fel canlyniad.
Llwybrau lluniau tirwedd cenedlaethol ar gyfer gwella hygyrchedd a chynllunio llwybr, yn bosibl ar gyfer coedwig Parc Cas-gwent.
Gall gwirfoddolwyr Cyngor Sir Fynwy weithio ar stad Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn.
Proses newydd ar gyfer digwyddiadau di-dâl. Mae hyn yn symleiddio'r broses, a bydd yn mynd yn fyw yn y dyfodol agos. Ar hyn o bryd gellir anfon e-bost i Bob am ddigwyddiadau.
Gofynnwyd am eglurhad am ba ddigwyddiadau sydd angen hysbysiad – mae grwpiau masnachol neu grwpiau mawr angen hysbysiad.
Croesewir adborth gan y Fforwm Lleol pan fydd ar gael.
Dylid rhoi gwybod am unrhyw broblemau gyda digwyddiadau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu anghyfreithlon drwy'r cysylltiadau hyn:
*Ar gyfer unrhyw ymholiadau, dylid defnyddio cyfeiriad e-bost y Tîm Rheoli Tir:*
*forestsandnaturesoutheast@naturalresourceswales.gov.uk*

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at on Dydd Mawrth, 13eg Mai, 2025 at 2.00 pm**

*NODYN: Ar gyfer digwyddiadau/adroddiadau brys neu allan o oriau gwaith, dylid defnyddio'r Ganolfan Rheoli Digwyddiadau (ICC): 0300 065 3000 (24/7) Cyfoeth Naturiol Cymru/ Rhoi adroddiad am ddigwyddiad*
*Rhoi adroddiad am gerbydau oddi ar y ffordd: contact@gwent.pnn.police.uk Ffonio 101 @gwentpolice*
ST- rhoddodd ddiweddariad ar ffocws Cyfoeth Naturiol Cymru ar swyddogaethau statudol.
Bu gostyngiad mawr yn y tîm polisi/swyddogion mynediad a hamdden a chafodd cymorth ei ostwng ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol ac yn gyffredinol. Nid yw'n hysbys sut y caiff y Fforwm Mynediad Cenedlaethol ei reoli ar hyn o bryd.
Gobeithir y caiff pethau eu gwneud yn well neu yn fwy effeithiol dros y 6-9 mis nesaf a chaiff y Fforwm Lleol eu hysbysu am y newidiadau.
Mae'r cymorth presennol oherwydd y gwerth y mae'r Fforwm Lleol yn ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru.
Ymateb gan y Fforwm Lleol am ba mor bwysig yw ymgyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru fel dull cyfathrebu dwy ffordd, sy'n hygyrch i grwpiau/sefydliadau a gwirfoddolwyr digwyddiadau yn llawer mwy effeithlon oherwydd yr ymgyfraniad hwn.

Mae llawer o Fforymau Lleol yn dal heb fod yn rhedeg gan nodi'r coll profiad a'r gefnogaeth gysylltiedig a rhoi adborth hyn i grŵp cadeiryddion Fforymau Lleol.

## 7. Rhaglen Waith y Dyfodol FfMLl i'w hadolygu a'i diweddaru

Cafodd rhaglen waith y flwyddyn flaenorol ei hadolygu. Cafodd newidiadau am raglen y flwyddyn nesaf (2025/26) ei cynnwys isod:

| Eitem | Cefndir | Trefniadau Adrodd | Cynnydd/ Cynlluniau: |
|---|---|---|---|
| **Eitemau safonol:** | | | |
| Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad (CAIP) | Cynnydd wrth weithredu'r CAIP | Adroddiad rheolaidd | Cyfarfodydd y dyfodol drwy ddiweddariad gweithredol rheolaidd gan Gyngor Sir Fynwy |
| Mesurau Perfformiad | Mesurau perfformiad Cynllun Cyflenwi MonLife ar faterion CAMS | Adroddiad rheolaidd | Cyfarfodydd y dyfodol drwy ddiweddariad gweithredol rheolaidd gan Gyngor Sir Fynwy |
| Cyllid | Cynnydd ar a chyfleoedd am raglenni prosiectau mynediad cefn gwlad a gyllidir yn allanol a gan gyllid cyfalaf Cyngor Sir Fynwy | Adroddiad rheolaidd | Cyfarfodydd y dyfodol drwy ddiweddariad gweithredol rheolaidd gan Gyngor Sir Fynwy |
| Ymgynghoriadau | Ymgynghoriadau i'r Fforwm ar faterion perthnasol fel sydd angen | Adroddiad i'r Fforwm Mynediad Lleol | Fel sydd angen |
| Diweddariadau Cyfoeth Naturiol | Diweddariad ar weithgareddau coedwigaeth a materion | Adroddiad rheolaidd | Cyfarfodydd y dyfodol drwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru | cysylltiedig â mynediad | | ddiweddariad gweithredol rheolaidd gan Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Gweithgorau:** | | | |
| Is-grŵp gwella (arfaethedig) | I gael ei sefydlu i gefnogi gweithio gyda chymunedau lleol i ddynodi gwelliannau ar gyfer y dyfodol, gyda ffocws dechreuol ar Goedwig Parc Cas-gwent ac yna Goedwig Gwent, yn amodol ar ail-sefydlu trefniadau cydlynu gyda rheolwyr tir a Chyngor Dinas Casnewydd | Adroddiad rheolaidd | Cylch gorchwyl enghreifftiol a chytundeb i sefydlu Fforwm Mynediad Lleol 11 Mehefin 2024: Ailgadarnhawyd Mai 2025. Diweddariad yng nghyfarfodydd y dyfodol |
| Traciau a Llwybrau Gwaelod Dyffryn Gwy | Sefydlu is-grŵp i weithredu fel rhan o grŵp llywio prosiect Traciau a Llwybrau | Adroddiad rheolaidd | Diweddariad yng nghyfarfodydd y dyfodol |
| Grŵp Mynediad Gwent | Cymryd rhan yn y grŵp mynediad rhanbarthol fel sydd angen (segur ar hyn o bryd) | Adrodd fel sydd angen | Fel sydd angen |
| **Eitemau Rhaglen Waith** | | | |
| Adolygu'r system flaenoriaethu bresennol ar gyfer gorchmynion cyfreithiol (yn cynnwys hawliadau DMMO) | Adolygu gweithrediad y system flaenoriaethu | Adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol | Cyfarfod yn y dyfodol yn 25/26 |
| Pontydd | Ystyried y cynllun rheoli asedau a'r rhaglen gyfalaf | Adroddiad rheolaidd | Atodi rhestr gyda diweddariad gweithredol Cyngor Sir Fynwy |
| Ymgysylltu Cymunedol a Gwirfoddoli | Ystyried y rhaglen gwirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol | Adrodd i gyfarfod yn y dyfodol | Cyfarfod yn y dyfodol |
| Diwygio mynediad Llywodraeth Cymru | Cael unrhyw ddiweddariad ar gynnydd ar ddiwygio mynediad | Adrodd fel sydd angen | Diweddariadau fel y deuant i law |
| Cyfathrebu i gynulleidfa ehangach | Cyfathrebu llwyddiannau/gwaith y Fforwm i gynulleidfaoedd ehangach | Adroddiad gan aelodau i'r Fforwm | Fel sydd angen |
| Teithio Llesol | Diweddariad gan Teithio Llesol ar y rhaglen waith, yn cynnwys ymgynghoriadau | Adrodd fel sydd angen | Fel sydd angen |
| Mynediad i ddatblygiadau mawr | Diweddaru ar ddatblygiadau mawr, tebyg i'r rhai yn y Cynllun Datblygu Lleol | Adrodd fel sydd angen | Fel sydd angen |

## 8. <u>Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a lleoliad</u>

Cyflwynwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol:

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Fforwm Mynediad Lleol held at on Dydd Mawrth, 13eg Mai, 2025 at 2.00 pm**

9 Medi 2025
26 Tachwedd 2025

GWEITHREDU: Aelodau'r Fforwm Lleol i roi adborth os na fedrant fynychu – aelodau'r Fforwm Lleol

GWEITHREDU: anfon yr agenda 2 wythnos cyn y cyfarfodydd - RG

**The meeting ended at 3.30 pm**